

Sefyllfaoedd a gweithdrefnau

Cofrestru fel ymgyrchydd nad yw'n blaid

Mae'r ddogfen hon ar gyfer sefydliadau ac unigolion sydd am wybod os oes rhaid iddyn nhw gofrestru fel ymgyrchydd nad yw'n blaid gyda'r Comisiwn Etholiadol

TP1

Ffurflenni efallai y bydd eu hangen arnoch:

Cynnwys:

Pwy all gofrestru

Pwy sy'n gorfod cofrestru

Sut i wneud cais i gofrestru

Beth sy'n digwydd ar ôl i chi gofrestru?

Cyfieithiadau a fformatau eraill

I gael gwybodaeth ar gael y cyhoeddiad hwn mewn iaith arall, neu fersiwn print bras neu Braille, cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol:

Ffôn: 020 7271 0500

E-bost: publications@electoralcommission.org.uk

Termau ac ymadroddion a ddefnyddiwn

Fel arfer byddwch fel arfer yn gwneud digon i gydymffurfio gyda'r gyfraith os ydych yn dilyn y canllawiau hyn.

Rydym yn defnyddio **'rhaid'** wrth gyfeirio at ofyniad penodol. Rydym yn defnyddio **'dylech/dylid'** ar gyfer eitemau yr ystyriwn i fod yn arfer da, ond nad ydynt yn ofynion cyfreithiol neu reoleiddiol.

Ein hymdriniaeth o orfodi

Mae'r Comisiwn yn rheoleiddio cyllid a gwariant gwleidyddol. Rydym wedi ymrwymo i roi dealltwriaeth glir o'u rhwymedigaethau rheoleiddiol i'r rheiny yr ydym yn eu rheoleiddio trwy ein canllawiau a'n gwasanaeth cyngor.

Lle bynnag bo'n bosibl, rydym yn defnyddio cyngor a chanllawiau yn rhagweithiol i sicrhau cydymffurfiaeth. Ac rydym yn rheoleiddio mewn modd sy'n effeithiol, cymesur a theg.

Os nad ydych yn cydymffurfio gyda gofynion cyfreithiol fe allech chi neu'ch sefydliad fod yn destun cosbau sifil neu droseddol. Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth am ymdriniaeth y Comisiwn o orfodi yn

<http://www.electoralcommission.org.uk/cymru/our-work/roles-and-responsibilities/our-role-as-regulator-of-political-party-finances>

Cofrestru fel ymgyrchydd nad yw'n blaid

Mae'r ddogfen hon ar gyfer:

Mae'r ddogfen hon ar gyfer sefydliadau ac unigolion sydd am wybod os oes rhaid iddyn nhw gofrestru fel ymgyrchydd nad yw'n blaid gyda'r Comisiwn Etholiadol.

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys:

- pwy all gofrestru fel ymgyrchydd nad yw'n blaid
- pwy sy'n gorfod cofrestru fel ymgyrchydd nad yw'n blaid
- sut i wneud cais i gofrestru
- beth sy'n digwydd ar ôl i chi gofrestru

Dogfennau a ffurflenni cysylltiedig:

- [Trosolwg o ymgyrchoedd gan rhai nad ydynt yn bleidiau](#)
- [Trosolwg o weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir rhai nad ydynt yn bleidiau](#)
- [Ffurflen TP1: Cais i gofrestru fel ymgyrchydd nad yw'n blaid.](#)

2

Crynodeb

Mae'r ddogfen hon yn esbonio pwy all gofrestru fel ymgyrchydd nad yw'n blaid a phryd mae'n rhaid iddynt wneud. Mae'n rhoi gwybodaeth ar y gofynion cofrestru ac yn esbonio beth sy'n digwydd ar ôl i chi gofrestru.

Cyflwyniad

Unigolion neu sefydliadau sy'n ymgyrchu cyn etholiadau, ond nad ydynt yn sefyll fel pleidiau gwleidyddol nac ymgeiswyr yw ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau.

Mewn cyfraith etholiadol, gelwir yr unigolion neu'r sefydliadau hyn yn 'drydydd partion'. Pan fo ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau wedi cofrestru gyda'r Comisiwn Etholiadol fe'u gelwir yn 'drydydd partion cydnabyddedig'. Yn ein canllawiau rydym yn galw trydydd partion cofrestredig yn 'ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau cofrestredig'.

Efallai yr hoffech ymgyrchu ar faterion penodol, neu dros neu yn erbyn pleidiau neu ymgeiswyr penodol.

Y mathau o ymgyrchoedd rhai nad ydynt yn bleidiau:

Mae dau fath o ymgyrchoedd rhai nad ydynt yn bleidiau, sef:

- **Ymgyrchoedd lleol:** ymgyrchoedd rhai nad ydynt yn bleidiau dros neu yn erbyn un neu fwy o ymgeiswyr mewn etholaeth, ward neu ardal etholiadol arall benodol
- **Ymgyrchoedd cyffredinol:** ymgyrchoedd rhai nad ydynt yn bleidiau dros neu yn erbyn plaid wleidyddol, neu gategoriâu penodol o ymgeiswyr, gan gynnwys ymgyrchoedd ar bolisiâu neu faterion sy'n gysylltiedig â phlaid benodol neu gategori o ymgeiswyr (er enghraifft, ymgeiswyr o grŵp oed penodol).

Mae rheolau gwahanol yn berthnasol i'r ddau fath hyn o ymgyrchoedd.

Rheoleiddir ymgyrchoedd cyffredinol gan y Comisiwn Etholiadol. Os ydych yn cynnal, neu'n bwriadu cynnal ymgyrch cyffredinol, efallai bydd angen i chi gofrestru gyda ni. Nid yw'r Comisiwn Etholiadol yn rheoleiddio ymgyrchoedd lleol.

Gallwch gael mwy o wybodaeth am y ddau wahanol fathau o ymgyrchoedd yn ein [trosolwg o ymgyrchoedd rhai nad ydynt yn bleidiau](#).

Mae'r canllawiau hyn yn sôn am ymgyrchoedd cyffredinol yn unig.

4

Pwy all gofrestru

Dim ond y mathau canlynol o unigolion neu sefydliadau all gofrestru gyda'r Comisiwn Etholiadol fel ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau cofrestredig:

- unigolyn sydd wedi cofrestru ar gofrestr etholiadol y DU neu'n breswlydd yn y DU
- plaid wleidyddol gofrestredig y DU (gan gynnwys pleidiau 'llai')
- cwmni cofrestredig yn y DU s'n gorfforedig yn yr UE ac yn cyflawni busnes yn y DU
- undeb llafur cofrestredig y DU
- cymdeithas adeiladu gofrestredig y DU
- Partneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig cofrestredig y DU sy'n cynnal busnes yn y DU
- cymdeithas cyfeillion, diwydiannol neu ddarbodus wedi'i chofrestru yn y DU.
- cymdeithas anghorfforedig yn y DU sy'n cynnal mwyafrif ei fusnes neu weithgareddau eraill yn y DU
- corff sy'n gorfforedig drwy Siarter Brenhinol
- sefydliad elusennol corfforedig y DU
- partneriaeth Albanaid sy'n cynnal busnes yn y DU

Os nad ydych yn cofrestru neu os nad ydych yn gymwys i gofrestru, ni allwch wario mwy na £10,000 yng Nghymru, yr Alban na Gogledd Iwerddon neu dros £20,000 yn Lloegr ar weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir yn ystod cyfnod a reoleiddir.

Os ydych yn cofrestru gyda ni, bydd gennych derfyn gwario uwch. Bydd y terfynau gwario yn dibynnu ar ba etholiad yr ydych yn ymgyrchu ynddi. Rydym yn cyhoeddi canllawiau penodol ar gyfer pob etholiad sy'n gosod y terfynau gwario, y cyfnod a reoleiddir a dyddiadau cau adrodd, sydd ar gael ar ein [gwefan](#). Unwaith i chi fod wedi'ch cofrestru, mae rheolau i'w dilyn ar roddion, gwariant ac adrodd.

Gall unigolion sydd wedi'u cofrestru i bleidleisio sy'n breswylwyr yn Gibraltar a rhai mathau o sefydliadau yn Gibraltar hefyd gofrestru fel ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau cofrestredig

Os ydych yn unigolyn neu'n sefydliad yn Gibraltar a'ch bod am gofrestru, cysylltwch â ni am fwy o wybodaeth



Dylech sicrhau os yw'ch sefydliad yn gymwys i gofrestru fel ymgyrchydd nad yw'n blaid.

Mae'n drosedd cofrestru os nad ydych yn gymwys i wneud hynny.

Pryd mae angen i chi gofrestru fel ymgyrchydd nad yw'n blaid?

Yn y cyfnod cyn etholiadau penodol, mae cyfnod penodol lle mae'r rheolau ar wariant a rhoddion yn berthnasol. Gelwir y cyfnod hwn yn y 'cyfnod a reoleiddir'. Bydd y cyfnod a reoleiddir yn wahanol yn ddibynnol ar ba etholiadau sy'n cael eu cynnal.

Rheoleiddir ymgyrchoedd yn y cyfnod cyn etholiadau:

- Senedd Ewrop
- Senedd y DU
- Senedd yr Alban
- Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- Cynulliad Gogledd Iwerddon

Os ydych yn:

- rhedeg ymgyrch 'cyffredinol' (gweler tudalen 3) a
- eich bod yn gwario, neu'n bwriadu gwario mwy na £10,00 yng Nghymru, yr Alban neu Ogledd Iwerddon neu £20,000 yn Lloegr ar 'weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir' (gweler tudalen 6) yn ystod cyfnod a reoleiddir

mae angen i chi gofrestru gyda ni fel 'ymgyrchydd nad yw'n blaid gofrestredig'.

Gallwch gofrestru gyda ni ar unrhyw adeg cyn neu yn ystod cyfnod a reoleiddir, ond mae'n rhaid i chi gofrestru gyda ni cyn i chi wario mwy na'r symiau hyn ar weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir yn ystod cyfnod a reoleiddir.

Gallwch gael mwy o wybodaeth ar y cyfnod a reoleiddir a gweithgarwch ymgyrchu a reoleiddir yn:

[Trosolwg o ymgyrchoedd gan rhai nad ydynt yn bleidiau](#)

6

Bydd y canlynol yn 'weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir' os gellir tybio ei fod wedi'i fwriadu i ddylanwadu ar bleidleiswyr i bleidleisio dros neu yn erbyn pleidiau gwleidyddol neu gategorïau o ymgeiswyr gan gynnwys pleidiau gwleidyddol neu gategorïau o ymgeiswyr sy'n cefnogi neu nad ydynt yn cefnogi polisïau neu faterion penodol (rydym yn galw hyn yn '**y prawf pwrpas**')

- cynadleddau'r wasg neu ddigwyddiadau'r cyfryngau eraill yr ydych chi'n eu trefnu
- trafnidiaeth mewn cyswllt gyda rhoi cyhoedduswydd i'ch ymgyrch

Gallwch gael mwy o wybodaeth ynghylch beth sy'n cyfrif fel 'gweithgarwch ymgyrchu a reoleiddir' yn ein [Trosolwg o weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir](#).

Yn ogystal â bodloni'r prawf pwrpas, mae gwariant ar y gweithgareddau canlynol yn cael ei reoleiddio os yw **hefyd** wedi'i anelu at, neu'n cael ei weld neu ei glywed gan, neu'n cynnwys y cyhoedd (gelwir hyn yn '**prawf y cyhoedd**'). Mae hyn yn berthnasol i:

- cynhyrchu neu gyhoeddi deunydd etholiadol
- canfasio ac ymchwil y farchnad (gan gynnwys defnyddio banciau ffôn)
- raliau cyhoeddus a digwyddiadau cyhoeddus

Does dim angen i chi gofrestru gyda ni os:



- nad ydych yn gwario arian ar weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir, neu;
- eich bod yn gwario llai na £10,000 yng Nghymru, yr Alban neu Ogledd Iwerddon neu lai na £20,000 yn Lloegr yn ystod cyfnod a reoleiddir, neu;
- eich bod yn ymgyrchu tu allan i gyfnod a reoleiddir

Ymgyrchoedd ar y cyd

Os ydych yn cydweithio gydag ymgyrchwyr eraill, gall hyn effeithio ar eich terfyn gwario a p'un a oes angen i chi gofrestru fel ymgyrchydd nad yw'n blaid.

Efallai y penderfynwch gydweithio gydag ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau eraill ar ymgyrchu a reoleiddir fel rhan o gynllun cydlynedig neu drefniant y bwriedir iddo gael canlyniad cyffredin. Gelwir yr ymgyrchoedd hyn yn 'ymgyrchoedd ar y cyd'.

Gall unigolion neu sefydliadau gydweithio ar ymgyrch ar y cyd yn y ffyrdd canlynol:

- gallwch fod yn ymgyrchydd nad yw'n blaid sy'n gweithio gydag ymgyrchwyr eraill
- gallwch fod yn rhan o 'prif ymgyrch' un ai fel 'prif ymgyrchydd' neu 'ymgyrchydd llai'

Os yw ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau yn cydweithio fel rhan o ymgyrch ar y cyd, bydd eu gwariant a reoleiddir cyfunedig yn cyfri tuag at derfyn gwariant pob ymgyrchydd nad yw'n blaid sy'n rhan ohono.

Os yw eu gwariant ymgyrchu a reoleiddir **cyfunol** ar yr ymgyrch ar y cyd yn fwy na £10,000 yng Nghymru, yr Alban neu Ogledd Iwerddon neu mwy na £20,000 yn Lloegr, bydd yn rhaid i'r holl ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau sy'n rhan o'r ymgyrch ar y cyd gofrestru gyda ni, hyd yn oed os yw eu gwariant ymgyrchu a reoleiddir unigol yn llai na'r terfynau cofrestru.

Os ydych yn 'ymgyrchydd llai' nid oes angen i chi gofrestru gyda ni ac adrodd manylion eich gwariant cyn belled â'ch bod yn gwario llai na £10,000 yng Nghymru, yr Alban neu Ogledd Iwerddon neu £20,000 yn Lloegr ar wariant ymgyrchu a reoleiddir. Eich 'prif arweinydd' fydd yn gyfrifol am adrodd eich gwariant ymgyrchu a reoleiddir i ni fel rhan o'r ymgyrch ar y cyd.

8

Os nad yw eich gwariant ar weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir yn ystod y cyfnod a reoleiddir (gan gynnwys gwariant fel rhan o'r ymgyrch arweiniol ac unrhyw wariant nad yw'n gysylltiedig gyda'r ymgyrch arweiniol) yn fwy na £10,000 yng Nghymru, yr Alban neu Ogledd Iwerddon, neu £20,000 yn Lloegr ni fydd angen i chi gofrestru gyda ni.

Os ydych yn rhoi rhodd i ymgyrchydd nad yw'n blaid arall ond nad ydych yn cymryd rhan mewn ymgyrch ar y cyd mewn unrhyw ffordd arall, ni fydd y rheolau ymgyrchu yn berthnasol i chi ac ni fydd angen i chi gofrestru gyda ni.

Mae mwy o wybodaeth yn ein canllawiau penodol:

[Trosolwg o ymgyrchu ar y cyd ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau](#)

Mae mwy o wybodaeth ynghylch rhoddion i ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau yn y canllawiau isod:

[Trosolwg o roddion i ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau](#)

Terfynau gwario ym mhob etholaeth

Yn ystod cyfnod a reoleiddir ar gyfer etholiad cyffredinol Senedd y DU, y mwyafswm gall ymgyrchydd nad yw'n blaid gofrestredig, neu anghofrestredig wario ar weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir mewn etholaeth seneddol benodol yw £9,750. Am fwy o wybodaeth gweler:

[Etholiad cyffredinol Senedd y DU: Ymgyrchu etholaeth wedi canolbwyntio](#)

Rydym yn galw gweithgarwch ymgyrchu a reoleiddir y mae eu heffeithiau yn gyfan gwbl neu'n rhannol wedi'i neilltuo i etholaeth neu etholaethau yn 'ymgyrchu etholaeth wedi canolbwyntio'. Gallwch ymgymryd ag ymgyrchu etholaeth wedi canolbwyntio mewn mwy nag un etholaeth ond nid yw'n cynnwys ymgyrchu mewn ardal gyfan y DU (Cymru, Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon).

Ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau cofrestredig

Fel ymgyrchydd nad yw'n blaid gofrestredig, mae'n rhaid i chi hefyd ddynodi eich gwariant ar weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir. Mae'n rhaid i chi ddyrannu gwariant ar ymgyrchu ledled y DU yn hafal i bob un o 650 o etholaethau'r DU. Os ydych yn ymgyrchu mewn un rhan o'r DU yn unig, mae'n rhaid i chi briodoli'n hafal i'r holl etholaethau yn y rhan honno. Mae'r

Mae 533 etholaeth seneddol yn Lloegr, 59 yn yr Alban, 40 yng Nghymru a 18 yng Ngogledd Iwerddon.

gwarant a briodolir i bob etholaeth yn cyfrif yn tuag at y terfyn £9,750 ar gyfer pob etholaeth.

Os ydych yn gwario'r cyfan o'r £9,750 ar ymgyrchu etholaeth wedi canolbwyntio mewn etholaeth benodol, byddwch yn torri'r terfyn gwario etholaeth yn yr etholaeth honno os ydych yn gwario unrhyw beth ar unrhyw weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir sy'n rhaid ei briodoli i'r etholaeth honno. I gael mwy o wybodaeth, gweler [Rheoli gwariant ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau.](#)

10

Sut i wneud cais i fod yn ymgyrchydd nad yw'n blaid gofrestredig

Os ydych am gofrestru, gallwch wneud cais drwy fynd i [CPE Ar-lein](#). Neu gallwch gofrestru gyda ni drwy lenwi [Ffurflen TP1](#) a'i bostio atom. Gallwch hefyd dderbyn copi wedi sganio o'r ffurflen dros [e-bost](#).

Pan fyddwn yn derbyn eich cais, byddwn yn ystyried y wybodaeth yr ydych wedi'i darparu ac yn cadarnhau yn ysgrifenedig pan fod eich hysbysiad mewn grym.

Mae eich cofrestrriad yn para 15 mis o'r dyddiad yr ydych wedi'ch cofrestru, ond os yw i fod i ddod i ben yn ystod cyfnod a reoleiddir, bydd yn cael ei estyn yn awtomatig hyd nes ddiwedd y cyfnod a reoleiddir.

Os ydych am adnewyddu eich cofrestrriad, mae'n rhaid i chi anfon [Ffurflen TP3](#) atom, heb fod yn gynt nag un mis cyn bod 12 mis wedi bod ers eich hysbysiad gwreiddiol, a heb fod yn hwyrach na thri mis ar ôl y dyddiad hwnnw. Bydd eich hysbysiad yn dod i ben os nad ydych yn cyflwyno eich adnewyddiad i ni yn ystod yr adeg hon.

Os yw eich hysbysiad yn dod i ben a'ch bod am ailgofrestru, bydd angen i chi wneud cais newydd.

Gallwch hefyd adnewyddu gan ddefnyddio [CPE Ar-lein](#).

Pa wybodaeth sy'n rhaid i mi ddarparu?

Mae'n rhaid i chi ddarparu:

- enw a chyfeiriad yr unigolyn neu'r sefydliad sy'n cyflwyno'r cais
- manylion y 'person cyfrifol' os oes gofyn
- manylion 'cyfranogwyr perthnasol' a phersonau eraill y sefydliad, os oes gofyn
- awdurdodiad ysgrifennydd y sefydliad (neu unigolyn sy'n gweithredu mewn swydd debyg), os oes gofyn

Y person cyfrifol

Fel rhan o'r cais mae'n rhaid i chi benodi person cyfrifol. Mae'r person hwn yn gyfrifol am wneud yn siŵr bod yr ymgyrchydd nad yw'n blaid gofrestredig yn dilyn y rheolau ar wariant, rhoddion ac adrodd.

Os ydych yn gwneud cais i gofrestru fel unigolyn, chi fydd y person cyfrifol yn awtomatig. Os ydych yn blaid wleidyddol gofrestredig yn y DU, trysorydd cofrestredig y blaid fydd yn berson cyfrifol yn awtomatig. Mae'n rhaid i bleidiau gwleidyddol 'llai' enwebu person cyfrifol gan nad oes ganddynt drysorydd cofrestredig.

Mae'n rhaid i bob categori arall o ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau enwebu rhywun i fod yn berson cyfrifol wrth wneud cais i gofrestru.



Os ydych wedi cofrestru fel ymgyrchydd nad yw'n blaid unigol neu eich bod eisoes yn berson cyfrifol ar gyfer ymgyrchydd nad yw'n blaid gofrestredig arall, ni allwch gael eich penodi fel person cyfrifol ar gyfer ymgyrchydd nad yw'n blaid gofrestredig arall.

12

Cyfranogwyr perthnasol

Fel rhan o gais i gofrestru gyda ni, mae'n rhaid i rai sefydliadau roi enwau'r bobl sydd ar eu cyrff neu bwyllgorau llywodraethu. Yn gyfreithiol, gelwir y bobl hyn yn 'gyfranogwyr perthnasol'.

Mae'n rhaid i'r sefydliadau canlynol ddarparu enwau eu cyfranogwyr perthnasol:

Sefydliad	Cyfranogwyr perthnasol
Cwmni cofrestredig	Cyfarwyddwyr y cwmni
Undeb Llafur	Swyddogion yr undeb llafur
Cymdeithas Adeiladu	Cyfarwyddwyr y gymdeithas
Partneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig	Aelodau'r Bartneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig
Cymdeithasau Cyfeillion	Aelodau o bwyllgor rheoli'r gymdeithas
Cymdeithasau Diwydiannol a Darbodus	Aelodau o bwyllgor rheoli'r gymdeithas neu gorff cyfarwyddo arall
Cymdeithasau Anghorfforedig	Lle mae gan y corff fwy nag 15 aelod a chanddo swyddogion neu gorff llywodraethu, y swyddogion neu'r aelodau o'r corff llywodraethu hynny; lle mae 15 aelod neu lai, aelodau'r corff
Cyrff sy'n gorfforedig drwy Siarter Brenhinol	Swyddogion y corff neu aelodau o'u gorff llywodraethu
Partneriaethau Albanaidd	Y partneriaid
Sefydliad Elusennol Corfforedig y DU	Ymddiriedolwyr yr elusen

Beth sydd angen i chi wneud wedi i chi gofrestru?

Wedi i chi gofrestru gyda ni, mae'n rhaid i chi gydymffurfio gyda rheolau gwariant a rhoddion a gofynion adrodd.

Fel trosolwg mae'n rhaid i chi:

- gael system yn ei lle i awdurdodi gwariant ar weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir
- gadw anfonebau a derbynebau ar gyfer taliadau dros £200 a wnaed fel rhan o'ch gweithgarwch ymgyrchu a reoleiddir adrodd i ni ar ôl yr etholiad am eich gwariant ar weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir os ydych wedi gwario mwy o £10,000 yng Nghymru, yr Alban neu Ogledd Iwerddon neu £20,000 yn Lloegr
- gwirio eich bod yn gallu derbyn unrhyw roddion dros £500 a'u cofnodi
- cydymffurfio gyda'r gofynion adrodd ar gyfer rhoddion yr ydych yn eu derbyn i'w gwario ar weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir

Hefyd, yn ystod y cyfnod a reoleiddir etholiad cyffredinol Senedd y DU:

- mae'n rhaid i chi adrodd rhai rhoddion penodol cyn ac ar ôl yr etholiad
- mae'n rhaid i chi roi rhestr o etholaethau i ni lle'r oedd eich gwariant ymgyrchu a reoleiddir yn fwy na £7,800
- efallai y bydd angen i chi roi datganiad o gyfrifon ar ôl yr etholiad

Mae mwy o wybodaeth ar y gofynion adrodd hyn ar gael yn y canllawiau canlynol:

- [Rheoli gwariant rhai nad ydynt yn bleidiau](#)
- [Etholiad cyffredinol Senedd y DU: Adrodd cyn y bleidlais ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau](#)
- [Trosolwg o roddion i ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau](#)
- [Etholiad cyffredinol Senedd y DU: Ymgyrchu etholaeth wedi canolbwyntio](#)
- [Trosolwg o Gyfrifon ar gyfer Ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau](#)
- [Etholiad cyffredinol Senedd y DU 2017: Ymgyrchwyr nad ydynt yn](#)

Sut allwn ni helpu

Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth yn y dogfennau yr ydym wedi awgrymu yn y ddogfen hon, neu gallwch weld yr holl ganllawiau a'r adnoddau diweddaraf ar ein gwefan.

Gallwch hefyd gysylltu â ni ar un o'r rhifau ffôn neu'r cyfeiriadau e-bost isod. Rydym yma i'ch helpu, felly cysylltwch â ni.

Cysylltwch â ni:

- Cymru: 029 2034 6800
gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk
- Lloegr: 020 7271 0616
pef@electoralcommission.org.uk
- Yr Alban: 0131 225 0200
infoscotland@electoralcommission.org.uk
- Gogledd Iwerddon: 0289 0894020
infonorthernireland@electoralcommission.org.uk

Neu ewch i www.comisiwnetholiadol.org.uk

Rydym yn croesawu adborth ar ein canllawiau - e-bostiwch ni:
pef@electoralcommission.org.uk